# SL(6)606 – Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") a Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau Cymeradwywyr"). Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn gosod gofynion ar bobl sy'n gwneud gwaith adeiladu. Mae'r Rheoliadau Cymeradwywyr yn darparu ar gyfer goruchwylio gwaith adeiladu gan gymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion newydd ar gyfer seilwaith a chysylltedd digidol mewn anheddau newydd sy'n barod i drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit. Maent hefyd yn darparu ar gyfer rhyddhad trosiannol o'r gofynion newydd mewn perthynas â gwaith adeiladu a hysbyswyd yn flaenorol i awdurdod lleol sydd naill ai eisoes wedi dechrau neu sy'n dechrau o fewn 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 4(2)(b), drwy fewnosod rheoliad 44ZAA (Particulars of connection to public electronic communications network) yn y prif reoliadau, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gwneud y gwaith adeiladu roi gwybodaeth benodol i'r awdurdod lleol heb fod yn hwyrach na'r diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau. Mae'r gofyniad am wybodaeth a nodir yn rheoliad newydd 44ZAA(2)(c)(ii) drwy gyfeirio at gyfnod o ddwy flynedd *"beginning with the day on which **the notice** is given"*. Nid yw'n glir at ba hysbysiad y mae'r ddarpariaeth hon yn cyfeirio.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mewnosodir rheoliad newydd 44ZC(8)(iii) gan reoliad 4(2)(b) o'r Rheoliadau hyn ac mae'n cyfeirio at “public electronic communications service”.  Fodd bynnag, nid yw'r term wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau hyn na'r prif Reoliadau.  Fe’i diffinnir yn adran 151(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. A ddylai diffiniad o’r term hwn fod wedi’i fewnosod yn rheoliad 44C (dehongli) ynghyd â’r diffiniad newydd o “public electronic communications network”?

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.